Ysgol Penrhyn-coch

Cafodd Guy, a'i feistr, y Cwnstabl David Thomas, groeso cynnes iawn gan y plant pan ymwelodd y ddau â ni un bore lau. Cawsom hanes y ci'n gyntaf gan y Cwnstabl a gofynnwyd nifer o gwestiynau gan y plant. Yna aeth pawb allan i'r iard i wedl Guy wrth ei waith. Yr oedd yna ddealltwriaeth perffaith rhwng y meistr ar ci a hyfryd oedd gwylio Guy yn ufuddhau bob tro i orchmynion Cwnstabl Thomas. Gobeithio'n fawr y cawn y cyfle i'w croesawu eto i ysgol y Penrhyn.

Yn anffodus bu Mrs A. Rees yn absennol am gyfnod oherwydd salwch. Cymerwyd ei lle dros dro gan Mrs Doreen Jones o Aberystwyth. Yr oedd Mrs Rees yn ôl fodd bynnag erbyn yr Eisteddfod a gawsom i ddathlu Gŵyl Ddewi. Hyfryd oedd gweld y merched yn eu gwisgoedd Cymreig a'r bechgyn i gyd â'u cennin gwyrddion. Cawsom gystadlu brwd,a da oedd gweld pob un mewn hwyl ardderchog ac mewn ysbryd mor hyfryd.

Croesawn Miss Lowri Griffiths o Bwllheli sydd,yma'n gwneud ei hymarfer dysgu. Myfyrwraig yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth yw hi. Croeso hefyd i ddwy ferch a ddaeth atom o West Kirby. Y mae Joanne a Victoria Harris yn byw'n 4, Ger-y-llan gyda'u rhieni a'u chwaer hyn sy'n ddisgybl ym Mhenglais. Prif swyddog yn y Gwasanaeth Sifil yw Mr. Harris.

Pleser gan y plant oedd cael cymryd rhan yn noson fawr y TINCER yn Neuadd y Penrhyn. Da oedd ganddynt hefyd gael y cyfle o berfformio ar y llwyfan yn Aberystwyth y nos Lun ganlynol. Yn awr edrychant ymlaen i'r Noson Cawl Cennin yn neuadd yr ysgol.